

## **Cyngor Cymuned Llanelian (318)**

Cofnodion cyfarfod Tachwedd 5, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Elfyn Hughes, Thomas Jones, Ian Evans, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, John Griffiths, Dafydd Griffiths, Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Hefina Williams, Cyng. Richard Jones

**Yn absennol:** David Gerrard, Cyng. Aled Jones, Cyng. Richard Griffiths

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

Cyn cychwyn y cyfarfod, cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus bod y cyfarfod wedi ei alw'n gywir er gwaethaf iechyd y clercc.

### **2 Datgan Diddordeb**

Ian Evans – cais cynllunio Y Bedol

Helen Hughes – Lein Amlwch/Lon Las Mon

Dafydd Griffiths – Datblygiadau Ynni

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Dafydd Griffiths, eilio Thomas Jones.

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **4.1 Datblygiadau Ynni (Polisi)**

Yn dilyn y drafodaet yn y cyfarfod diwethaf, deallwyd bod Cyngor Amlwch am gysylltu a CSYM i ofyn am ddiidymu'r enw 'Ynys Ynni' gan fod hyn yn ei hun yn rhoi cefnogaeth cynllunio i brosiectau ynni mawr. Cytuno cefnogi'r cais i ddiidymu'r enw. NI fu Dafydd Griffith yn rhan o'r drafodaeth.

CT

#### **4.2 Safle Rehau**

Cafwyd lythyr gan CSYM gyda diweddariad am y sefyllfa bresennol ynglyn a'r safle.

#### **4.3 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

Nododd Dafydd Griffiths ei fod wedi ymateb i'r ymgynghoriad fel unigolyn ac y byddai yn fodlon cylchlythyru'r ymateb i'r aelodau drwy ebost. Cytuno os byddai pawb yn fodlon byddai'r ymateb yn cael ei anfon ar ran y Cyngor hefyd.

DG

### **5 Adroddiadau Pwyllgorau**

**5.1 Caeau Chwarae** – cadarnhaodd Gordon Hayes ei fod am gael pris am drin y meinciau yn y gysgodfan ym Maes Llwyfo. Cafwyd prisiau am y gwaith o dorri coed ym Maes Llwyfo. Cytuno derbyn pris Richard Edwards am y gwaith. Cafwyd prisiau am drin y llecyn tir tu ol i Stad Dublin, cytuno derbyn pris Dave Holdsworth am y gwaith. Y clercc i gysylltu a'r ddau i gadarnhau.

GH

CT

**5.2 Llithrfa** – nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd eto, cytuno byddai cyfarfod gyda Maldwyn Griffith (harbwr feistr newydd) o fudd. Cadarnhaodd y clercc bod tua hanner o goriadau wedi eu dychwelyd. Bydd yr ad-daliadau yn cael eu talu o fewn y mis.

CT

**5.3 Mynwent** – daethpwyd a cwyn am mynwent Bosra at sylw'r aelodau er gwybodaeth. Mae'r clercc wedi ymateb i'r gwyn ac wedi anfon y manylion ymlaen at y Henaduriaeth am ymateb pellach. Bydd cyfarfod y pwyllgor unwaith bydd y clercc yn ol yn ei gwaith, cytuno byddai cyfarfod yn y mynwent o fudd.

CT

**5.4 Cyllid a Pholisi** – dim wedi cyfarfod.

**5.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – dim diweddariad – gobeithio cwrdd mis nesaf. Cadarnhaodd y clercc bod newidiadau o fewn SBS i'r ffordd eu bod yn rheoli cyfrifon. Cytuno byddai datganiadau banc ar gael i'r pwyllgorau perthnasol i'w gweld yn rheolaidd.

CT

**5.6 Pwyllgorau Allannol – dim.**

**6 Cynllunio**

**6.1 Ceisiadau –**

Derbyniwyd gwybodaeth pellach ar gais cynllunio Y Bedol. Ni fu sylw pellach ar y cais. Cydnabod derbyn llythyr gan Gwyn Roberts yn nodi ei bryderon am y cais. Gofynnwyd yn gyffredinol sut fod CSYM yn sicrhau bod 'tai fforddiadwy' yn 'dai fforddiadwy', cytuno gofyn i Richard Jones wneud ymholiadau. CT ROJ

**6.2 Penderfyniadau –**

Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn –  
HHP/2019/111 Felin Fach, Dulas - caniatad  
DIS/2019/99 Lane Ends, Llaneilian – caniatad

Nodwyd bod disgwyl diweddariad gan CSYM am achosion gorfodaeth. Y clerch i wneud ymholiadau. CT

**7 Materion Ariannol**

**7.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –  
£293.46 Carli Evans Thau (cyflog)

**7.2 Ceisiadau am Arian –** Eisteddfod Mon Bro Esgeifiog, cytuno peidio cefnogi gan fod yr achos y tu allan i'r plwyf.

**7.3 Cytundeb Torri Gwair, Cynnal a Chadw –** trafodwyd anghenion y gwaith. Cytuno ar gytundeb 3 mlynedd gyda opsiwn i ychwanegu 2 flynedd ar ddiwedd y tair mlynedd cyntaf. Cytuno cynnig tri cytundeb llai sef, y fynwent, y caeau chwarae a gardd top rallt, y llwybrau. Cytuno byddai angen rhoi hysbyseb yn y papur newydd yn ogystal ag yn lleol. Y pwyllgor polisi a chyllid i gytuno ar y geirfa. CT

**8 Iechyd a Diogelwch**

Nododd Glenys Jones bod y contractwyr torri gwair wedi codi 'manhole' ar Lon Gadfa a'i bod wedi cysylltu a CSYM i'w hysbysu o'r peryg.

**9 Wylfa Newydd**

Mae penderfyniad ar y cais DCO wedi ei ohurio nes Ionawr 2020.

**10 Gohebiaeth**

10.1 Daw gorchymun gan CSYM ynglyn a newid llwybr 27 (Rhosmynach).

10.2 Daw ebost gan Reg Hinchcliffe ynglyn a manyldeb llenwi tyllau yn y ffordd. Cytuno ymateb i ddiolch a chopi i Annwen Morgan er gwybodaeth. CT

**11 Lon Las Mon**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, mae Dafydd Griffiths wedi cysylltu a Lein Amlwch am wybodaeth cyfatebol i'r hyn sydd eisioes wedi ei gyflwyno gan Lon Las Mon. trafodwyd y ddau gynllun mewn manylder. Cynnigwyd bod y Cyngor yn cefnogi Lon Las Mon, cynnig Ian Evans, eilio Dafydd Griffiths. O blaid cefnogi'r cynllun 6 aelod, yn erbyn cefnogi ac am beidio gwneud sylw 2 aelod. Ni fu i Thomas Jones bleidleisio. CT

**12 Unrhyw Fater Arall**

12.1 Sul y Cofio – Nododd Gordon Hayes ei fod wedi tynnu yr hen flodau oddi ar y cofgolofn. Nododd Carol Whitaker ei bod wedi trefnu torch ar gyfer y Cyngor. Cytuno i bawb sydd ar gael i gwrdd ger y cofgolofn toc cyn 11 ddydd Sul 10/11/2019. Y clerch i wirio gyda'r ysgol a fyddent yn bresennol ynteu yn mynd a torch eu hunain ar y dydd Llun. CT

12.2 David Gerrard – nodwyd nad oedd wedi mynychu cyfarfod ers mis Chwefror ac felly yn unol a Deddf Llywodraeth Lleol 1972 (85) nid yw yn gynghorydd mwyach. Y clerch i anfon nodyn ato i esbonio'r sefyllfa a hefyd i drefnu bod y sedd wag yn cael ei hysbysebu cyn CT

gynted a phosib. Pwysleiswyd nad penderfyniad yr aelodau oed hyn ond deddf gwlad.

- 12.3** Coeden Nadolig – Carol Whitaker a Gordon Hayes i drefnu coeden gyda Anglesey Mowers ar gyfer dechrau Rhagfyr. GH  
CW
- 12.4** Nodwyd bod y lon o Nebo heibio Twrllachiad mewn cyflwr gwael ac angen sylw. Y clerch i gysylltu a CSYM. CT
- 12.5** Llwybr 20 – nodwyd nad oedd y tiffeddianwyr wedi cael cadarnhad yn unol ag ebost Huw Percy hyd yma. Elfyn Hughes i wneud ymholiadau. EH
- 12.6** Rheolau Sefydlog – hoffai'r cadeirydd drafod ac adolygu'r rheolau yn y cyfarfod nesaf er mwyn galluogi i aelodau o'r cyhoedd a chynghorwyr sy'n datgan diddordeb yr hawl i gyflwyno gwybodaeth i'r cyngor (ond nid i drafod). EH  
CT

**13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Rhagfyr 3 2019 am 7 o'r gloch  
Bu'r cyfarfod orffen am 20.50

**Arwyddwyd**  
**Elfyn Hughes, Cadeirydd**

CET11/2019